CRYNODEB O'R YMCHWIL

# 8 peth y dylid eu gwybod

## Profiadau plant o gymryd rhan yn y llys teulu

Gofynnwyd i 11 o blant a phobl ifanc 8-17 oed sut brofiad oedd rhannu eu barn am fynd drwy'r llys teulu â Cafcass Cymru. Dyma beth ddywedwyd wrthym...

### 1. Diflannodd fy nerfau'n fuan

Roedd y plant weithiau'n nerfus cyn y cyfarfod ond nodwyd bod y nerfusrwydd hwn yn diflannu unwaith eu bod yn cyfarfod â'r gweithiwr o Cafcass Cymru. Teimlodd rhan fwyaf ohonynt rhyddhad o gael cyfle i sôn am yr hyn roeddent am iddo ddigwydd.

### 2. Roeddwn yn teimlo bod rhywun yn gwrando

Dywedodd y rhan fwyaf o'r plant fod Cafcass Cymru yn dda iawn o ran gwrando ar eu safbwyntiau. Roeddent yn teimlo y gallent fod yn agored ac yn onest.

### 3. Ni roddwydd llawer o ddewisiadau i mi

Nid oedd y rhan fwyaf o'r plant wedi cael dewis pryd, ble na sut i siarad â Cafcass Cymru. Gan amlaf, y rhieni oedd wedi penderfynu. I rai, roedd lleoliad y cyfarfod yn gwneud iddynt deimlo'n anghyfforddus.

### 4. Roedd cymryd fy amser yn bwysig

Dywedodd rhai plant fod y cyfarfod wedi para am gyfnod eithaf da, ond i eraill roedd yn fyrrach na'r hyn roeddent yn ei ddisgwyl. Gofynnwyd llai o gwestiynau i'r plant hyn nag roeddent wedi ei ddisgwyl.

### 5. Roeddwn i'n teimlo dryswch ynglŷn â rhai pethau

Roedd y plant yn deall y gwaith y mae Cafcass Cymru, barnwyr a'r llys teulu yn ei wneud. Ond roedd eithaf tipyn (gan gynnwys plant hŷn yn eu harddegau) yn teimlo dryswch yn ystod ac ar ôl y cyfarfod.

### 6. Mae cael gwybod am benderfyniad y llys yn bwysig

Cafodd pob un o'r plant wybod beth oedd wedi digwydd yn y llys gan riant/rhieni. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn fodlon ar hyn, ond roedd un neu ddau yn dymuno cael gwybod gan rywun o'r tu allan i'r teulu fel Cafcass Cymru neu'r barnwr.

### 7. Doeddwn i ddim yn gwybod bod gen i opsiynau

Nid oedd y plant yn gwybod y gallent ysgrifennu llythyr neu gyfarfod â'r barnwr. Roedd un ferch wedi cael gwahoddiad i fynd i'r llys ond dewisodd beidio â mynd am ei bod yn teimlo'n nerfus yn ei gylch.

### 8. Mae angen i mi ymddiried ynoch chi i leisio fy marn

Roedd y plant yn dibynnu ar eu gweithiwr i leisio eu barn yn y llys. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn teimlo eu bod yn gallu ymddiried ynddynt i wneud hyn. Ond pan oedd plant yn teimlo nad oeddent wedi cael eu deall, roeddent yn pryderu am beth all ddigwydd nesaf.

Ar sail hyn, rydym o'r farn:

1. y dylid anfon gwybodaeth at blant yn nodi **gyda phwy y bydd yn cyfarfod** a **pha gwestiynau fydd yn cael eu gofyn** cyn y cyfarfod
2. y dylid **esbonio pethau i blant mewn llawer o ffyrdd gwahanol** er mwyn iddynt **ddeall beth sy'n digwydd**
3. mai'r plant ddylai **wneud y dewisiadau** o ran **pryd, ble a sut** i rannu eu barn.
4. y dylid cynnig **ffyrdd eraill o fynegi barn** i blant y maent yn teimlo'n **gyfforddus** yn eu defnyddio.